

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 38 Medi 18, 2025 50c.

Diolch o galon Dyfrig

Cyrraedd pen talar oedd ein hanes wrth ymgynnull yn Nhŷ John Penri ar gyfer achlysur arbennig cyn troi i osod swch yr aradr yn barod i dorri rhych newydd. Yr achlysur oedd ffarwelio a mynegi diolch i'r Parchg Dyfrig Rees am ei waith a'i gyfraniad fel Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am gyfnod o saith mlynedd. Daeth criw dethol at ei gilydd o gyfeillion, cyn-lywyddion a chyd-weithwyr fu gydag ef yn ystod tymor ei Ysgrifenyddiaeth er mwyn mynegi gwerthfawrogiad dwfn o'i gyfraniad, nid yn unig i Undeb yr Annibynwyr ond yn ehangach ymhlith yr eglwysi Annibynnol trwy Gymru gyfan.

Dyfrig Sant

Cyfarchwyd Dyfrig yn feistolgar gan y dewin geiriau a Llywydd presennol yr Undeb sef Owain Llŷr Evans, gweinidog Minny Street, Caerdydd. Rhannodd gyda ni yn hwyliog beth o hanes Dyfrig Sant gan gyfeirio at un o'r chwedlau a'i gymhwyso i'n Dyfrig ni. Wrth wneud hynny cyfeiriodd at ei arweiniad cadarn dros gyfnod eithriadol o anodd. Nid anghofiwn byth flynyddoedd hir a thywyll COVID a'r effaith andwyol a gafodd ar y byd a'r betws. Bu farw dros 200 mil o bobl ac am gyfnod fe ymddangosai na fyddai Llywodraethau Prydain na'r wladwriaeth les yn gallu ymdopi â'r argyfwng. Nid yn unig fe gaewyd drysau eglwysi am fisoedd ar y tro ond daeth cymunedau cyfan i stop o ganlyniad i'r pla marwol hwnnw. Bu hwn yn ergyd drom i dystiolaeth Gristnogol yng Nghymru ac yn un marwol i rai achosion Cristnogol. Ond trwy'r cwbl roedd Dyfrig yn gadarn sefydlog a'i natur amyneddgar a phwyllog yn gaffaeliad mawr. Bu llawer, yn eglwysi ac unigolion ar ei ofyn ac ymatebodd yn ddoeth i'r holl bwysau fu arno ef a'r Undeb. Gwerthfawrogi yn fawr



iawn yr hyn a wnaeth yn y cyfnod digynsail hwnnw. Nid oedd sgript, map na chanllawiau ar gael i ddangos y ffordd.

Llythrau

Darllenwyd dau lythyr a ddaeth i law gan ddau o'r cyn Ysgrifenyddion Cyffredinol sef Dr Geraint Tudur a'r Parchg Dewi Myrddin Hughes. Yr oedd y ddau ohonynt wedi bwriadu dod i ddymuno'n dda i Dyfrig ond oherwydd amgylchiadau neilltuol nid oeddent wedi medru mynychu. Roedd y ddau lythyr – a ddarllenwyd gan y Parchg Robin Samuel a'r Parchg Jeff Williams – yn mynegi diolch diffuant i Dyfrig am ei holl waith dros deyrnas yr Arglwydd Iesu Grist ac yn dymuno'n dda iddo yn ystod ei ymddeoliad. Dywedodd Dyfrig air byr yn mynegi ei ddiolch i'r Undeb a'r holl unigolion hynny a fu'n gefn ac yn gymorth iddo yn ystod ei dymor. Diolchodd yn benodol i'r staff am eu cymorth parod ac am yr ysbryd llawen a'r chwerthin cyson a fu yn eu cwmni. Mynegodd hefyd ei ddiolch aruthrol i'w briod Mandy am ei chefnogaeth diwyro iddo ac am fod yn glust parod i wrando dros yr holl flynyddoedd. Wrth siarad gyda'r staff roedd yn amlwg y byddai bwlch mawr yn cael ei adael ar ei ôl yn Nhŷ John Penri ac y byddai pawb ohonynt yn gweld ei golli yn ddirfawr.



Rhoddion

Cyflwynwyd rhoddion i gloi'r gweithgareddau gan Elinor Wyn Reynolds, sef tusw o flodau i Mandy a rhodd pur anarferol i Dyfrig sef set o gyllyll bwtshera gan gwmni arbenigol Opinel, heb sôn am becyn o hadau betys. Roedd Dyfrig yn amlwg wedi gwirioni yn llwyr â'r rhain gan iddo agor y bocs yn ddiymdroi a thynnu'r cyllyll o'r wain fel Arthur gynt gyda Chaledfwlch! Yna torrwyd cacen ffarwel a chafwyd bwyd bys a bawd blasus yn goron ar y cwbl. Diolch o galon Dyfrig am dy waith a'th arweiniad. Boed iechyd a hawddfyd i ti a Mandy yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.



Hyfforddi – beth sy'n digwydd?

Dyma drydedd rhan adroddiad Carwyn Siddall y Cyfarwyddwr Hyfforddi a draddodwyd yng nghyfarfodydd Blyneddol Undeb yr Annibynwyr yn Nant Gwrtheyrn eleni.

Yn dynn ar sawdl y modiwlau y soniwyd amdanynt yn rhifyn diwethaf *Y Tyst*, bydd dau fodiwl newydd sbon yn cael eu creu.

Rhan o'r Byd

Y cyntaf fydd modiwl dan y pennawd 'Rhan o'r Byd', sydd yn fodiwl sy'n archwilio perthynas Cristnogaeth â gwahanol agweddau o'n byd ehangach. Bydd yr wyth maes yn cael eu harchwilio gan arbenigwyr yn eu meysydd, Cydlynnydd y modiwl fydd Mr Ifan Alun Puw, a'r wyth maes a'r arbenigwyr fydd:

- Cristnogaeth a heddwch : Ymateb i heriau i'n cymunedau – Parchg Anna Jane Evans
- Cristnogaeth a chenedlaetholdeb – Parchg Ddr Rhys Llwyd
- Cristnogaeth a chynladwydd y blaned: Heriau amgylcheddol – Dr Hywel Griffiths
- Cristnogaeth a'r cyfryngau digidol – Parchg Beti-Wyn James
- Cristnogaeth a'r diwylliant Cymraeg – Parchg Athro Densil Morgan
- Cristnogaeth a gwyddoniaeth – Dr Hefin Jones
- Cristnogaeth mewn byd seciwlar – Parchg Ganon Aled Edwards
- Cristnogaeth a moesoldeb mewn byd sy'n newid – Parchg Ddr Rosa Hunt

Yr Eglwys

Yr ail fodiwl fydd 'Yr Eglwys' – modiwl yn cynnig trosolwg ar hanes yr Eglwys o'r dechreuadau hyd heddiw. Yn arwain y modiwl fydd tri o'n plith, sef:

- Yr eglwys fore – Parchg Guto Prys ap Gwynfor
- Y Diwygiadau – Parchg Ddr Alun Tudur
- Yr eglwys heddiw – Parchg Beti-Wyn James

Yn sicr, edrychwn ymlaen yn fawr at y modiwlau newydd hyn, a diolch i'r holl diwtoriaid am eu cymorth a'u harweiniad.

Cymhwyster academiaidd

Y drydedd haen yw'r haen sy'n cynnig cymhwyster academiaidd, a thrwy ein cydberthynas â'r Eglwys Bresbyteriaidd ac Undeb y Bedyddwyr, rydym yn cynnig yr haen yma drwy Goleg y Bedyddwyr yng Nghaerdydd. Yno, gellir derbyn achrediad



cyfwerth a safon lefel A, diploma, neu radd Baglor, Meistr neu Ddoethur. Gwir yw cydnabod fod graddau achrededig mewn diwinyddiaeth yn cael eu hepgor gan ein prifysgolion yma yng Nghymru, ac mae hynny'n dristwch ac yn siom. Fodd bynnag, mae Coleg y Bedyddwyr mewn trafodaethau gyda phartneriaid a phrifysgolion eraill er mwyn sicrhau ei fod am allu parhau i achredu ei hyfforddiant, a'r cynnwys yn y Gymraeg.

Yn wyneb lleihau'r sefydliadau addysgol sy'n cynnig hyfforddiant diwinyddol, rwy'n credu fod hyn yn galw arnom i sicrhau ein bod yn darparu hyfforddiant o'r safon uchaf posib, a thrwy hynny, arfogi'r rhai sy'n cael eu hyfforddi i bregethu'r Gair yn rymus ac effeithiol, i arwain astudiaethau Beiblaidd o sylwedd, ac i addysgu'r gynulleidfa er mwyn eu hadeiladu mewn gwybodaeth ac adnabyddiaeth o'n Harglwydd.

Er mwyn sicrhau fod yr holl wybodaeth am hyn yn cyrraedd yr eglwysi, mae'n fwrriad gennym lunio llawlyfr cryno yn cyflwyno rhai o'r modiwlau, a'u rhannu â'r eglwysi fel copi caled, yn ogystal â chopi digidol ar wefan yr Undeb.

Bydd y rhan olaf o'r adroddiad hwn yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

Bethlehem, Dyffryn Ceidrych
Oedfa Dathlu 225 mlynedd
1800 – 2025

Bore Sul 28 Medi am
10.30 y bore.

Pregethwr gwadd –
Parchg Guto Prys ap Gwynfor.

Bydd lluniaeth ysgafn i ddilyn yn
yr hen ysgoldy.

Croeso cynnes i bawb

Neges frys Cymorth Cristnogol

**Dydd Sul 21 Medi 2025: galwad i
weddio dros heddwch**

Rydym yn dystion i'r trais dinistriol cynyddol yn Gaza a'r Lan Orllewinol ac mae lleisiau arweinwyr eglwysig Palestina dros undod a chadoediad yn atseinio trwy'r eglwysi yn fyd-eang. Maent yn ein hannog i ymateb yn glir a chadarn a chyda thosturi.

Mae tystiolaeth Gristnogol weladwy ac unedig yn angenrheidiol yn y cyfnod difrifol hwn – tystiolaeth sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad ar y cyd dros heddwch, cymod, ac urddas i holl bobl Duw.

Dydd Sul 21 Medi

Ymunwch â'r alwad i weddio, sy'n cyd-fynd â Diwrnod Heddwch y Byd y Cenhedloedd Unedig, a'r alwad fyd-eang i weddio gan Gyngor Eglwysi'r Byd.

Dydd Mercher 24 Medi

Ymunwch â ni o flaen Senedd Cymru ym Mae Caerdydd am 12.30 o'r gloch am orig heddwchlon o dystiolaeth a gweddi gyhoeddus.



Rhyfel


O'n rhyfyg y daw rhyfel – a'i allu
i'n gollwng i rwbel;
Dau yn ddall i'r don a ddêl
A'i hymchwyllyd yn ei dymchwel.

Gaza

Dielw yw dialedd, - hen ynni
Annol ei lygredd.
Olion hyll hyd lannau hedd
Yr enw sy'n wirionedd.

D.G.J.

Codi'r Llen – Maes Llafur yr Oedolion 2025/26



MAES LLAFUR OEDOLION 2025/26

O fis Hydref 2025 ymlaen y maes llafur ar gyfer yr oedolion fydd y gyfrol *Codi'r Llen*, sy'n ein tywys ar daith 40 sesiwn yn edrych ar rai o ferched arwrol yr Hen Destament. Cyhoeddwyd y gyfrol, sy'n gyfieithiad o *Unveiled*, ddwy flynedd yn ôl, ac mae'n dda cael cyfle i'w ddefnyddio fel sail i'n hastudiaethau dros y flwyddyn nesaf. Yn ychwanegol at y gyfrol ei hun, bydd myfyrdod a chyfres o gwestiynau hefyd yn ymddangos bob wythnos yn *Cenn@d* a'r *Tyst*, i'n cyfeirio ar hyd y daith. Diolch i Sian Meinir am baratoi'r rhain ar ein cyfer.

Mae rhai o ferched yr ysgrythurau Hebraeg yn adnabyddus, ond prin fod llawer o'r lleill yn cael eu cofio. Hyd yn oed pan ddigwydd hynny, nid ydym yn oedi'n ddigon hir i feddwl beth y gallwn ei ddysgu ganddynt. Mae *Codi'r Llen*, sydd wedi'i ysgrifennu gyda didwylledd a hiwmor ac wedi'i ddarlunio gan waith celf trawiadol artist ifanc o Rydychen, yn archwilio storïau 40 o ferched mewn 40 o ddyddiau. Gorffennir pob myfyrdod drwy ei gymhwyso'n fyr i fywyd bob dydd, arweiniad i'w ystyried ymhellach a gweddi.

Cyhoeddwyd y llyfr yn Gymraeg fel prosiect gyda chriw'r Tabernacl, Caerdydd, gyda Ruth Davies yn llywio'r prosiect ac yn gweithredu fel golygydd.

Cyflwyniad yr awdur, Clare Hayes

Daeth y llyfr hwn i fod oherwydd anwybodaeth. Ychydig flynyddoedd yn ôl, roeddwn mewn siop yn trefnu i gael fframio lluniau pan wnaeth y perchennog, o weld fy ngholer wen, y gosodiad sy'n gwneud i arweinwyr eglwysig grynu: 'Fe fyddwch yn gwybod yr ateb i hyn gan eich bod yn ficer.' Y cwestiwn a ofynnodd oedd, 'Miriam yw enw cariad fy mab, ac rwy'n gwybod ei bod yn y Beibl – ond pwy oedd hi?' Roedd yn gwestiwn da, ond roeddwn yn petruso. Gwyddwn fod a wnelo hi rywbeth â Moses, ond dim llawer mwy. Daeth cwsmer arall i mewn, ac felly cymerais y cyfle i guddio'r tu ôl i'r fframiau er mwyn cael gwlglo'i gwestiwn!

Deuthum oddi yno yn benderfynol o ddarganfod mwy am Miriam a hefyd holl ferched eraill yr ysgrythur, a gosodais her i mi fy hun i ysgrifennu am ferch o'r Beibl bob dydd dros 40 niwrnod y Grawys a'i wneud yn flog. Pan

ddechreuais, roeddwn wedi bwriadu defnyddio merched y Testament Newydd yn ogystal, ond fe ddarganfyddais fod yna gymaint o ferched ffantastig yn yr Hen Destament ac fe benderfynais, yn hytrach, ganolbwyntio arnynt hwy.

Mae yna ragdybiaeth fod merched yn cael eu hanwybyddu yn arw yn yr ysgrythurau Hebraeg, a phan ysgrifennir amdanynt maent ar yr ymylon ac yn gymeriadau braidd yn ddau-ddimensiwn: dan len dirgelwch, wedi'u cuddio o'r golwg neu ar y cyrion. Mae hyn yn sicr yn wir am rai merched, ond mae yna lawer o rai eraill sydd yn ganolog i'r stori, yn gymhleth ac yn cael eu defnyddio gan Dduw mewn dulliau anghyffredin. Drwy'r merched hyn, darganfyddais fy mod yn gallu deall rhannau o'r Beibl oedd wedi ymddangos yn ddirgelwch cynt. Er bod eu byd yn cael ei reoli gan ddynion mor aml, roedd gan lawer o'r merched hyn ddewisiadau roeddynt yn gallu eu gwneud o fewn cyfyngiadau eu cymdeithas batriarchaidd. Ambell dro roedd y dewisiadau hyn yn cael dylanwad arnynt hwy eu hunain a'u teuluoedd, ac ar adegau eraill daethant ag achubiaeth neu ddinistr i gymuned gyfan, a hyd yn oed newid trefn hanes.

Yn hytrach na threfnu storïau'r merched hyn yn gronolegol o Genesis ymlaen, penderfynais eu grwpio o amgylch themâu oedd yn eu hamlygu eu hunain, megis mamolaeth, gwaith, perthynas a grym. Ni ddylem anwybyddu'r storïau mwy annymunol chwaith, oherwydd maent yn ein hatgoffa bod yna ddioddef a phoen yn ganolog i'r cyflwr dynol, a'r angen am gariad achubol Duw fel y datguddiwyd inni'n llawn drwy Iesu. Gyda hyn mewn golwg, rwyf wedi cynnwys myfyrdod a gweddi ar ddiwedd

pob pennod, sydd, gobeithio, yn rhoi storïau'r merched hyn mewn cyd-destun.

Nid bwriad y llyfr hwn yw bod yn astudiaeth ddofn ddiwinyddol; mae yna lawer sy'n fwy cymwys na fi wedi gwneud hynny eisoes. Fy ngobaith yw y byddwch drwy ddarllen y storïau a mwynhau delweddau hardd Micah yn dod i adnabod rhai o'r merched hyn yn well a darganfod, er eu bod wedi byw gannoedd o flynyddoedd yn ôl, bod eu storïau mor anhygoel o gyfoes. Mae gan y merched hyn frwydrau'n ymwneud â pherthynas, cystadleuaeth rhwng brodyr a chwiorydd, heriau ariannol a materion ffrwythlondeb. Mae ganddynt hefyd doniau rhyfeddol, sgiliau, ffydd a dewrder.

Drwy godi'r llen ar storïau'r merched rhyfeddol hyn a'u dewisiadau, fy ngobaith yw y gallwn ddod i ddysgu mwy amdanynt a hefyd dod i wybod mwy am gariad helaeth Duw tuag atom ni a phawb arall. Rwyf wedi dysgu cymaint gan y merched hyn ac rwy'n gobeithio y gwnewch fwynhau darllen amdanynt gymaint ag y gwnes i fwynhau ysgrifennu amdanynt.

Y merched y byddwn yn eu cyfarfod fydd:

1. Efa: y dewis cyntaf
2. Hagar: gweld a chlywed
3. Sara: o dan y coed deri
4. Rebeca: ffydd a ffafiaeth
5. Jochebed: y fam ddirgel
6. Hanna: yr un a gododd
7. Rispa: fe gadwodd wynnos
8. Y weddw o Sareffath: rhoi a derbyn
9. Miriam: y broffwydes lawen
10. Debora: y farnwres ryfelgar
11. Hulda: proffwydes barn
12. Rachel: y chwaer gafodd ei charu
13. Lea: y chwaer arall
14. Naomi: chwerwfelys
15. Ruth: calon feddal, traed caled
16. Y Mrs Samson

[\(parhad ar y dudalen nesaf\)](#)

**Codi'r Llen – Maes Llafur
yr Oedolion 2025/26**

(parhad o dudalen (parhad o dudalen 1)

gyntaf 17. Merch Jefftha: addewid farwol 18. Michal: caru a chasáu 19. Merched Seloffehad: grym merched 20. Jael: marwol mewn pabell 21. Abigail: llysgennad yr anialwch 22. Brenhines Sheba: ceisydd doethineb 23. Esther: ar gyfer y fath amser â hwn 24. Gwraig Lot: y ferch a droes 25. Gwraig Potiffar: yr hudoles 26. Delila: pam, pam, pam? 27. Jesebel: ei barnu'n annheg? 28. Athaleia: y frenhines ddialgar 29. Dina: anrhydedd neu gywilydd? 30. Tamar: cwmp a chyfiawnder 31. Bathseba: harddwch a'r bwystfil 32. Fasti: #FiHefyd 33. Swsanna: y mae'n gyfyng arnaf 34. Siffra a Pua: y bydwagedd gwrthryfelgar 35. Rahab: putain, arwres neu'r ddau? 36. Cyfryngwraig Endor: mynd yr ail filltir 37. Abisag y Surnamees:

y tyst tawel 38. Y wraig Surnamees: gobaith cynyddol 39. Morwyn Naaman: cyngor dewr 40. Merched Salum: dewch, adeiladwn

“Pan fyddaf yn cwrdd â merched yn fy eglwys a'm cymuned, rydw i'n gweld unigolion sy'n ddewr, gonest, ffyddlon, gweithgar, creadigol, clyfar – ac amherffaith, fel fi! A dyna'n union y math o ferched yr ydw i'n cwrdd â nhw yn nhudalennau'r ysgrythurau Hebraeg. Diolch i bawb a gyfieithodd y gyfrol feddylgar ac ymarferol hon i'r Gymraeg, i'n hatgoffa bod lle pwysig ac arbennig i ferched yng nghynllun Duw, nid yn unig yn nhudalennau'r Beibl ond hefyd ym mywyd ein heglwysi a'n capeli dros Gymru heddiw.”

Y Parchedig Ddr Rosa Hunt, Gweinidog Capel y Tabernacl, Caerdydd, a Thiwtor yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd

“Mae'r gwagedd sy'n camu allan i'n cyfarfod o dudalennau'r llyfr hwn yn cynnwys y rhai sy'n hysbys a'r rhai sydd bron yn anhysbys. Mae rhai o'u straeon yn gorlifo â goleuni a gobaith; mae eraill yn drwm â phoen a thywyllwch. Beth bynnag, gall pob un ohonynt gysylltu – hyd yn oed yn rhannol – â'n bywydau ein hunain. A dyma'r rheswm: ynom a thrwom, rydym yn darganfod yr un Duw yr ydym ni'n ei geisio a'i foli, ein Duw sy'n gweld, sy'n gwrando, sy'n darparu – a charu.”

Y Parchedig Ganon Naomi Starkey, Arweinydd Tîm Ardal Weinidogaeth Bro Padrig ac Efenglydd Arloesi ar gyfer gogledd Ynys Môn

Codi'r Llen – Merched yr Hen Destament a'u Dewisiadau gan Clare Hayns; gol. yr addasiad Cymraeg, Ruth Davies (Cyhoeddiadau'r Gair, 2023; pris £13.99)

Credo Nicea – Sesiwn Pump – Yr Eglwys ac Undeb (rhan 1)

Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.

De India

Ysgrifennwyd gan y Gwir Barchg Ddr Royce M. Victor, Esgob Malabar, Eglwys De India

Ochr yn ochr â bod yn Esgob Esgobaeth Malabar, y mae'r Gwir Barchg Ddr Royce M. Victor yn gwasanaethu fel aelod o Gomisiwn Rhyngwladol yr Anglicaniaid a'r Catholigion ar Undeb a Chenhadaeth, ac yn Gyd-gadeirydd Anglicanaidd Comisiwn Rhyngwladol y Pentecostaliaid a'r Anglicaniaid. Cyn hynny, gwasanaethodd fel aelod o'r Ddeialog Ryngwladol Anglicanaidd-Ddiwygiedig.

Esgobaeth Malabar, Eglwys De India, India

Ers blynyddoedd, dathlwyd India fel cenedl oddefgar gydag amrywiaeth diwylliannol a chrefyddol. Er gwaethaf hyn, gwelodd y wlad gynnydd yn ddiweddar mewn heriau a wynebir gan leiafrifoedd crefyddol, yn arbennig gan Gristnogion a Mwslimiaid. Arweiniodd hyn at ostyngiad mewn goddefgarwch crefyddol yng nghymdeithas India. Yn ogystal, deil tlodi a gwahaniaethu ar sail 'caste' i fod yn arwyddocaol.

Eglwys – Undeb

Credwn yn un Eglwys lân gatholig ac apostolig. Cydnabyddwn un bedydd er maddeuant pechodau.

Darlleniad o'r Beibl – Effesiaid 4:1–8

Undod y Corff

¹Yr wyf fi, felly, sy'n garcharor er mwyn yr Arglwydd, yn eich annog i fyw yn deilwng o'r alwad a gawsoch. ²Byddwch yn ostyngedig ac addfwyn ym mhob peth, ac yn amyneddgar, gan oddef eich gilydd mewn cariad. ³Ymrowch i gadw, â rhwymyn tangnefedd, yr undod y mae'r Ysbryd yn ei roi. ⁴Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw'r gobaith sy'n ymhyg yn eich galwad; ⁵un Arglwydd, un ffydd, un bedydd, ⁶un Duw a Thad i bawb, yr hwn sydd goruwch pawb, a thrwy bawb, ac ym mhawb. ⁷Ond i bob un ohonom rhoddwyd gras, ei ran o rodd Crist. ⁸Am hynny y mae'r Ysgrythur yn dweud: “Esgynnodd i'r uchelder, gan arwain ei garcharorion yn gaeth; rhoddodd roddion i bobl.”

Myfyrdod

Lluniwyd Credo Nicea, sy'n fynegiant sylfaenol o'r ffydd Gristnogol, yn y bedwaredd ganrif OC, fel ymateb i argyfwng y bygythiad o ymddatod oedd yn wynebu'r Eglwys a'r Ymerodraeth o ganlyniad i heresiâu gwahanol. Ei brif amcan oedd amddiffyn y ffydd ac undod yr Eglwys yn fyd-eang, ac mae'n dal yn berthnasol hyd yn oed heddiw fel modd i ddwyn pawb sy'n credu yn Iesu Grist ynghyd. Ni ellir gwadu ei bwysigrwydd i hybu undeb Eglwysig a hynny am nifer o ffactorau allweddol.

Yn gyntaf, mae Credo Nicea yn sefydlu nifer o wirioneddau diwinyddol sydd uwchlaw ffiniau enwadau Cristnogol byd-eang. Cynigir sylfaen gyffredin i Gristnogion ar draws y byd gan y gyffes o ffydd yn un Duw, y Drindod, a duwioldeb Iesu Grist. Yn nhirlun crefyddol amrywiol a rhanedig ein dydd, mae Credo Nicea yn fan lle gallwn ddod at ein gilydd, a lle cawn ein hatgoffa fod gennym gred greiddiol gyffredin.

Moelallt ac Emynau Eraill – Gerald Morgan, 2025

Mae gan bob un ddawn, a'r doniau hynny'n amrywio o'r naill berson i'r llall. Un sy'n amlwg wedi'i fendithio â'r ddawn i ysgrifennu emynau a chyfansoddi tonau yw Gerald Morgan, Tregaron.

Dywedir bod Williams Pantycelyn wedi ysgrifennu dros fil o emynau. Honnir bod Mozart wedi cyfansoddi 800 o ddarnau cerddorol yn ystod ei fywyd byr (bu farw yn 35 oed). Synhwyrir bod ysgrifennu emynau i Bantycelyn, a chyfansoddi cerddoriaeth i Mozart, yr un mor hanfodol ag oedd anadlu. Rhywbeth yn debyg, mae'n siŵr gen i, yw agwedd Gerald Morgan at y naill beth a'r llall. Mae'n gynhyrchol iawn, ac wedi cyhoeddi toreth o emynau ac emyn-donau yn ystod y blynyddoedd diweddar.

Cyrol 36-tudalen sydd newydd ei chyhoeddi yw *Moelallt ac Emynau Eraill*. Ceir yma 24 o emynau a thonau gwreiddiol. Trefnir y tonau i gyd i gynghanedd gyflawn (SATB); gwnaethpwyd y trefniannau i'r cwbl ac eithrio tair tŷn gan Neli Jones, Pontrhydfendigaid. Recordiwyd yr emynau, ac mae modd clywed unawdwyr lleol yn canu'r alawon, i gyfeiliant Neli Jones. Cymwynas fawr yw hynny, a braf clywed talentau o'r fro sy'n cefnogi'r Pethe a'n heisteddfodau lleol – Carys Ann Davies, Miriam Llwyd Davies, Sara Davies, Dafydd Jones, Gwynne Jones a Guto Lewis. (Ceir nodiadau bywgraffyddol iddynt ar dudalennau 34–5.)


Mae Tregaron a'r cylchoedd o amgylch y fro arbennig hon o Geredigion yn amlwg

yn ddylanwad mawr ar Gerald Morgan, ac mae blas lleol ar sawl agwedd o'r casgliad. Caiff y gyfrol ei chyflwyno i'r diweddar Barchedig Arthur Wynne Edwards, un a fu'n weinidog ar gapel enwog Bwlchgwynt, Tregaron. Fel sy'n nodweddiadol o waith Gerald, daw enwau nifer o'r tonau o'r ardal, wedi'u cyflwyno i bobol leol, neu i goffâu'r rhai sydd wedi bod yn ddylanwad arno. Cymwynas fawr yw'r esboniad y tu ôl i'r dewis o donau (tud. 32).

A dyma ddod at yr emynau. Mae yma emynau at sawl achlysur, ac at sawl math o gynulleidfa. Anelir rhai ar gyfer plant, a cheir pennawd neu destun i'r cwbl. Mae'r rheiny'n amrywio o 'Y Crêwr Mawr' (cân o fawl i Dduw'r Crêwr) i 'Daeth y Diwrnod' (sy'n weddi dros Gymru). Ceir hefyd gyfeiriadaeth ysgrythurol wrth ymyl rhai o'r emynau. Trwy'r cwbl, mae'r emynau yn genhadol eu naws, yn Feiblaidd eu cynnwys ac yn Grist-ganolog. Golyga hyn felly fod yma emynau cadarn, na fyddan nhw'n dyddio nac yn teimlo'u bod nhw 'mewn' na 'mas' o ffasiwn. Dyma gryfder mawr y casgliad, yn fy marn i. Oni bai fod yr emynau'n taro deuddeg, yn ddealladwy ac yn gallu cyffwrdd â'r galon ac â'r enaid, fyddai yna fawr o bwrpas i gyfrol o emynau a thonau.

I'r rheiny ohonom sy'n adnabod Gerald Morgan, gwyddom yn iawn am ei angerdd at ei Waredwr. Ac o'r angerdd personol a didwyll hwnnw y daw'r casgliad *Moelallt ac Emynau Eraill*. Diolch iddo am ddefnyddio'i ddoniau a rhoi i ni ar gof a chadw ffrwyth ei

Moelallt ac emynau eraill



Gerald Morgan 2025

awen a chynnyrch ei lafur. Gobeithio y caiff lawer foddhad a bendith o'r casgliad hwn – a gobeithio hefyd caiff Gerald flynyddoedd eto i gynhyrchu pethau tebyg ar ein cyfer.

Delyth Morgans Phillips

Pwrpas *Moelallt ac Emynau Eraill* gan Gerald Morgan yw codi arian at Open Doors. Mae'r llyfr yn cynnwys cryno ddisg, ond mae hefyd yn bosib lawrlwytho'r emynau drwy gysylltu â'r awdur drwy e-bost. Cost y cyfan yw £13. Os ydych am dalu'n ddigidol, yna cysylltwch ar cyfrolau@yahoo.com neu anfonwch sic (yn daladwy i Gerald Morgan) at: Gerald Morgan, Hafod Wen, Pwllswyddog, Tregaron, Ceredigion, SY25 6JG.

Ymunwch â ni fel Rheolwr Nesaf yr Ymddiriedolaeth

Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru / Welsh Religious Buildings Trust

- 📍 Gweithio o bell (yng Nghymru) | Rhan-amser (4 diwrnod, 28 awr yr wythnos)
- 📍 £29,824 y flwyddyn (pro rata) – Cyfwerth ag amser llawn: £37,280
- 📍 Contract cyfnod penodol (yn adnewyddadwy yn amodol ar gyllid)

Ydych chi'n frwydfrydig dros dreftadaeth <https://addoldaicymru.cymru/> Gymreig, yn fedrus o ran gweinyddu, ac yn barod i gael effaith ystyrlon? Ymunwch ag Addoldai Cymru yn ein cenhadaeth i ddiogelu a dathlu capeli anghydfurfiol hanesyddol Cymru. Rydym yn chwilio am Reolwr ymroddedig a threfnus i chwarae rhan allweddol mewn rhedeg yr Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd, gan gefnogi ein staff, gwirfoddolwyr, a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Sut i wneud cais

I wneud cais, anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol yn amlinellu eich addasrwydd ar gyfer y rôl at:

📧 post@addoldaicymru.org

A wnewch chi hefyd gynnwys enwau a manylion cyswllt dau ganolwr (fyddwn ni ddim ond yn cysylltu â nhw os byddwch yn llwyddiannus).



Addoldai Cymru
Welsh Religious Buildings Trust



- 📍 Ymholiadau anffurfiol? Cysylltwch â'n Cadeirydd, Gerallt Nash, ar gerallt.nash@btinternet.com
- 📍 Dyddiad cau: 30ain o Fedi.
- 📍 Cyfweiliadau rownd gyntaf trwy Zoom | Cyfweiliadau terfynol yn bersonol.

Mae Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir a chymuned.



Caniadaeth y Cysegr

Sul, 21 Medi, am 7:30yb a 4:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Trystan Lewis

Oedfa Radio Cymru

Sul, 21 Medi, am 12:00yp

Oedfa dan ofal Nerys Brown, Dunblane

I weld y cyhoeddiad digidol *Cenn@d* yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir *Cenn@d* ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Myfyrdod AirPod 1

Mae technoleg wedi dod yn rhan allweddol o'n bywydau ac mae pawb ohonom yn ei ddefnyddio yn ddyddiol. Un



teclyn glasddant poblogaidd yw AirPods sy'n ein galluogi i wrando ar gerddoriaeth a sgyrsiau. Mae nifer o nodweddion rhyfeddol i'r cibion (pods) hyn yn cynnwys

Technoleg Tawelu Sŵn (Noise Cancellation Technology). Pwrpas hwn yw tawelu'r sŵn allanol sy'n tarfu ar yr hyn rydych yn gwrandao arno. O fewn i'r cib rydych yn ei roi yn eich clust mae meicroffon sy'n gwrandao ar y synau allanol. Yna, trwy ddadansoddi'r wybodaeth anfonir tonnau sain i'ch clust sy'n gwrthweithio'r sŵn cefndirol gan eich galluogi i glywed eich rhaglen neu gerddoriaeth yn well. Onid yw technoleg yn rhyfeddol?

Rhyfeddod arall yw bod William Williams, Pantycelyn, wedi deall yr egwyddor hon yn bell cyn yr AirPods, gan ei gymhwyso i fywyd y Cristion. Yn rhan gyntaf ei bennill dywed fel hyn:

O llefara addfwyn Iesu,
mae dy eiriau fel y gwin,
oll yn dwyn i mewn dangnefedd
ag sydd o anfeidrol rin;

I'r Cristion mae gwrandao ar eiriau'r Iesu, ei addoli a'i ddilyn yn llenwi ein calonnau gyda hyfrydwch a thangnefedd. Ar ben hynny mae hyn yn digwydd:

mae holl leisiau'r greadigaeth,
holl ddeniadau cnawd a byd,
wrth dy lais hyfrytaf, tawel
yn distewi a mynd yn fud.

Mae llais yr Iesu'n mudo lleisiau'r byd ac yn gwrthweithio'r hyn sy'n andwyol a chelwyddog ynddo. Mae gwrandao arno Ef yn ein helpu i beidio â syrthio i demtasiwn nac i fateroliaeth niweidiol ond i'w ddilyn Ef yn driw.

Rydym angen y dechnoleg ysbrydol hon mewn byd lle mae cymaint o leisiau a sŵn cefndirol yn bloeddio arnom a'n drysu.

Cofio John Wesley Work yr ieuaf



Ganed John Wesley Work yr ieuaf yn Nashville, Tennessee ar 6 Awst 1871. Roedd yn addysgwr a cherddolegydd ac fe'i cydnabyddir fel y casglwr cerddoriaeth gwerin Affro-Americanidd cyntaf. Ffurfiwyd grwpiau corawl gan Work tra oedd ym Mhrifysgol Fisk tua diwedd y 1800au. Daeth yn addysgwr yn Fisk yn ddiweddarach. Bu'n casglu caneuon caethweision ac emynau Negroaidd gyda'i wraig, Agnes Haynes, a'i frawd Frederick Jerome Work. Un ohonynt oedd 'Dos, dywed ar y mynydd' – cân gosbel y mae rhai'n credu iddo gael rhan yn ei chyfansoddi. Yn ddiweddarach, ffurfiodd ei gwmni cyhoeddi ei hun, Work Brothers & Hart. Roedd hefyd yn gyfarwyddwr Cantorion Jiwibili Fisk. Bu farw John Wesley Work yr ieuaf ar 7 Medi 1925. Roedd mab Work, John Wesley Work III, yn gyfansoddwr a chasglwr caneuon yn ogystal.

Dos Dywed

Mae pedwar pennill yr emyn 'Dos dywed ar y Mynydd' ynghyd â chytgan yn *Caneuon Ffydd* (Rhif 476) yn yr adran Yr Adfent a'r Geni. Priodolir dau ohonynt i Work. Mae'r ddau bennill arall a'r cytgan yn anadnabyddus.

Dafydd Owen (1910–2002), Gweinidog gyda'r Annibynwyr a phrifardd sy'n gyfrifol am y cyfieithiad. Bu ar un adeg yn weinidog Gibea, Brynmanan. Cynhwysir 'Dos, dywed ar y mynydd', yn y gyfrol *Carolau a'u Cefndir*, E. Wyn James. Cyfieithiad Edmund Owen o benillion gwreiddiol Work sydd yn y gyfrol hon ynghyd â chyfieithiad Dafydd Owen o'r cytgan traddodiadol.



Nadolig hydrefol?

Pam sôn am garolau Nadolig nawr, meddech chi? Wel, pam lai! Yn naturiol, rydyn ni'n cofio Work a fu farw gan mlynedd yn ôl yn union i'r mis hwn. Cofiwn hefyd fod llawer o garolau'n cynnwys themâu diamser sy'n eu gwneud yn addas i'w canu y tu hwnt i Wyl y Geni. Maen nhw hefyd yn cynnig negeseuon o obaith a llawenydd drwy gydol y flwyddyn.

Dyma gynnwys fersiwn llawn y garol fel y mae'n ymddangos yn *Caneuon Ffydd*:

*Dos, dywed ar y mynydd, ledled y bryn ac ymhob man,
dos, dywed ar y mynydd am eni Iesu Grist.
Tra gwyliai y bugeiliaid y praid drwy'r noson hir,
yn syth o'r nef disgleiriodd goleuni dwyfol, clir.
A hwythau, wedi'i weled, aent ar eu gliniau 'nghyd,
ac yna mynd ar unwaith i geisio Prynwr byd.
Pan geisiais innau Iesu, fe'i ceisiais nos a dydd,
erfyniais am ei gymorth, arweiniodd fi yn rhydd.
Fe'm gwnaeth yn wylwr cyson ar furiau dinas Duw,
a'm rhawd, fi Gristion eiddil, mor ddedydd, dedwydd yw.*

(Allan o *Papur Elim*, Heol Awst a'r Priorddy rhifyn 12, Medi 2025)

Diwrnod Heddych Rhyngwladol Caerfyrddin 2025

Dydd Sul, 21 Medi 5.00

Ymunwch â ni i godi
baner heddych
yng nghwmni Maer y Dref
tu allan i Neuadd San Pedr
am 5 o'r gloch y pnaen

Croeso i bawb

Cyswllt: parchbetiwyn@gmail.com




Barn Annibynnol

Pwy yw'r ffyliaid heddiw?

Yn ddiweddar, roedd dameg y dyn cyfoethog a adeiladodd ysguboriau mwy i gadw'i gynhaef llwyddiannus, wedi ei gosod yn y darlenniadur cyffredin y mae llawer o enwadau ac eglwysi ar draws y byd yn ei ddefnyddio o Sul i Sul.

Atgoffwyd fi wrth ddarllen y ddameg o bregeth rymus Martin Luther King (MLK) ar yr union stori mewn pregeth yn Detroit rhyw flwyddyn cyn ei lofruddio. Fe fyddwch yn cofio i lesu, yn y



ddameg, gyfeirio at y dyn cyfoethog oedd am godi ysguboriau mwy, fel 'ffŵl' am iddo gredu fod ei dynged tragwyddol yn ddiogel tra bod ei ysguboriau'n llawn, heb gofio 'heno y mynnir dy einioes yn ôl gennyt, a phwy a gaiff y pethau a baratoaist?' Dechreuais feddwl a oedd sylwadau craff MLK dal yn berthnasol, bron drigain mlynedd yn ddiweddarach.

Cyd-destunoli

Ar ddechrau ei bregeth, mae'n dadansoddi cyflwr cymdeithas UDA (a Phrydain, mae'n siŵr gen i) yn y 60au. Fe ddechreuais gyfieithu'r geiriau hyn, ond mae ergyd y geiriau yn rhannol yn ei ddefnydd o iaith! Dyma a ddywedodd:

Our scientific power has outrun our spiritual power. We have guided missiles and misguided [man]. Like the rich man of old, we have foolishly minimized the internal in our lives and maximized the external. We have absorbed life into livelihood. We will not find peace in our generation until we learn anew that 'man's life consisteth not in the abundance of the things that he possesses' but in those inner treasures of the spirit which 'no thief approacheth, neither moth corrupteth.'

Our hope for creative living lies in our ability to re-establish the spiritual ends of our lives in personal character and social justice. Our

generation (cofiwch mai sôn am genhedlaeth y 60au yr ydym!) cannot escape the question of our Lord: What shall it profit a man, if he gains the whole world of externals – airplanes, electric lights, automobiles and color television – and lose his own soul?

Mae'r iaith yn hen ffasiwn (yn enwedig ei ddefnydd o iaith anghynhwysol) ac mae ei enghreifftiau o ddatblygiadau technolegol yn ymdangos braid yn gyntefig. Ond mae gwirioneddau yma y mae angen i ni eu hystyried o hyd a'u mabwysiadu fel sylfaen barhaol ar gyfer y gwerthoedd Cristnogol ddylai fod yn sail i'n bywydau.

Crynodeb o'r cynnwys

Mae'n gwneud tri phwynt (wrth gwrs!).

Yn gyntaf, credai fod y dyn cyfoethog yn ffŵl oherwydd iddo ganiatáu i amcanion ei fywyd gael eu drysu ag adnoddau ei fywyd. Technoleg oedd prif gonsyrn MLK. Newidiodd y byd technolegol yn syfrdanol ers hynny. Ond mae'r cwestiwn yn dal yn berthnasol; Sut y gallwn ni fel eglwysi wneud defnydd mwy effeithiol o'r cyfryngau cymdeithasol sydd wedi dod mor hanfodol i fywydau cynifer o bobl (gan gynnwys deallusrwydd artiffisial), fel y gallant ddod, nid yn bethau i ni gwyno amdanynt yn gyson, ond yn ffyrdd y gall pob cenhedlaeth (yn enwedig pobl ifanc) ddarganfod ystyr newydd, ymdeimlad newydd o les a gwerth byw a bod, a dealltwriaeth newydd o nod a thynged ein bywydau a'n perthynas ag eraill yma ac ar draws y byd. Her lesu o hyd yw bod gwrthod wynebu'r her hon heddiw yn ffolineb.

Yn ail, credai MLK fod y dyn cyfoethog yn ffŵl oherwydd iddo fethu â sylweddoli ei ddibyniaeth ar eraill. Ni allem fynd ati i fyw ein bywydau bob dydd heb ein gallu mewn byd cyd-gysylltiedig i fanteisio ar amser a llafur eraill, rhai yn agos, rhai ymhell i ffwrdd. Rydym yn sylweddoli hyn, wrth gwrs, ac yn ein munudau gorau rydym yn ei gofio ac yn diolch. Ond sut mae dathlu a meithrin byd rhyng-ddibynnol? Onid yw llawer o economeg ryngwladol yn cael ei gyrru, nid gan werthfawrogiad o'n dibyniaeth ar

waith ac aberth eraill, ond ar ddatblygu ffyrdd o fanteisio cymaint â phosibl ar waith eraill am y gost leiaf posibl i ni ein hunain? Yr alwad Gristnogol, felly, yw atgoffa ein hunain ac, hyd eithaf ein gallu, atgoffa ein cymdeithas ehangach a'r pwerau cymdeithasol a gwleidyddol sy'n pennu gwerthoedd ein cymdeithas a'n byd, bod adeiladu trefn ryngwladol fwy cyfiawn, hael a charedig, yn rhan o'r her o dystio i deyrnas Dduw yn ein hoes ni.

Yn olaf, credai fod y dyn cyfoethog yn ffŵl oherwydd iddo fethu â sylweddoli ei ddibyniaeth ar Dduw. Ar un ystyr, dyma'r gwirionedd mwyaf amlwg heddiw o bopeth ddwedodd MLK am y ddameg hon. Yn awr, hyd yn oed yn fwy nag yn niwedd y 60au, nid yw realiti Duw yn cyfeirio'r ffordd y mae'r rhan fwyaf ohonom, fel unigolion a chymdeithasau, yn byw ein bywydau.

Pwy yw Duw?

Am un peth, rwy'n amau a ydym yn glir ynglŷn â'r hyn a olygwn wrth 'Dduw'. Ydyn ni'n dal i feddwl am Dduw fel hen ddyn yn y cymylau? Os felly, nid yw'n syndod na all y rhan fwyaf o bobl yn ein cymdeithas ymdopi â syniad o'r fath. Neu a ydym yn meddwl am Dduw fel egni trosgynnol o gariad, ystyr a thrugaredd sydd, yn lesu, yn treiddio'n ddwfn i fywyd y bydysawd ac yn siapiro bywyd dynol? Os felly, gallai hynny wneud llawer mwy o synnwyr i lawer o bobl yn ein hoes ni.

Os mai dyna ein dealltwriaeth o Dduw, yna mae ein bywydau, dyfodol y gymuned fyd-eang a dyfodol y blaned hon yn dibynnu ar weld rhywbeth o'r rhyfeddod a'r cyfoeth 'ysbrydol' hwn o'n cwmipas ac ynom. Mae angen dychymyg arnom i weld bod byd o harddwch a harmoni, rhyfeddod a gogoniant yn bosibl os ydym yn caniatáu i Dduw yn lesu, yn hytrach na'n gweledigaeth gul, hunan-ganolog a hunan-geisiol ni ein hunain, lunio ein blaenoriaethau.

Noel Davies

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)



Eglwysi Alltwn a Soar Maesyrfaf

Gwahoddir chwi gan yr Eglwysi uchod i ddathlu 60 mlynedd ordeinio y Parchg Gareth Morgan Jones i'r weinidogaeth.

Pregethir gan
y Parchg Owain Llŷr Evans,
Llywydd yr Undeb

Dydd Sul 12 Hydref
yn yr Alltwn am 2.30pm.

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:


Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Ffug farwnad Meirion

Yn ystod dathliadau 70 mlynedd y Parchg Meirion Evans yn y weinidogaeth a gynhaliwyd yn Jerusalem, Porth Tywyn fe gyflwynwyd y ffug farwnad hon iddo. Rhodd unigryw mi dybiwn!



Meirion mae hiriau
y cof heddiw'n cau
pinnau ei dolau, mae'n ddidolydd
yng ngwyll fy ngholled.
Yn nydd dinodded
o wae, hylwydded â'n oleuddydd
â nghof yng ngafael
haf yr oriau haul
a fu yn ddi-ffael ddefnydd i ffydd.

Gyfaill fe gafwyd
afiaith a yfwyd
a'i naws a sadiwyd â'n seiadu.
Hywel* â'i elwch;
oer ust ei dristwch;
hoen yn nhawelwch ein hanialu.
Min dy ddoethineb,
cyfrin daerineb
yn hadau i neb a'th adnabu.

Heuaist drwy waeau
Di-hedd ein dyddiau
hadau dan drom iau eu amheuan
â hoen awenydd
drwy ffawd daear ffydd
yn oes y cesair
a'r rhew yn yr aer.
Am emau Ei Air diolch Meirion.

*Hywel Teifi

**OEDFA
GOMISIWN**

ELINOR WYN REYNOLDS
Ysgrifennydd Cyffredinol

- Mae croeso cynnes iawn i bawb.
- Dewch i ddymuno'n dda ac i fwynhau cwmniâeth.
- Bydd llunïaeth i ddilyn yn y festr.
- Caiff yr oedfa ei ffrydio'n fyw ar ein gwefan:

annibynwyr.cymru

**GWASANAETH
COMISYRU**

GWILYM JEFFS
Yn Arweinydd Tim

**ANGOR
GRANGETOWN**

28 MEDI • 4PM • THE BAY CHURCH, CORPORATION RD

Dewch i ddathlu gyda ni!

Cyfundeib Gorllewin Morgannwg

**Sul y
Cyfundeb**
yng nghwmni

Gwenan Gibbard
Telynores a chantores

Capel yr Alltwen

Sul, 28 Medi, 2025 am 10.30

Croeso cynnes i bawb